**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Adroddiad gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
**ar**
**Reoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru)**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Rheoliadau uchod yn ei gyfarfod ar 17 Mai 2006. Cawsant eu hystyried yn unol â'r protocol ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth, y cytunwyd arno gan y Pwyllgor, lle mae Aelodau yn rhoi gwybod ymlaen llaw am unrhyw gwestiynau neu welliannau y dymunant eu gwneud i'r Gorchymyn.

Ni chynigiodd yr Aelodau unrhyw welliannau.

Ymatebodd y Gweinidog i dri pwynt o esboniad a godwyd gan Gwenda Thomas AC.

**i. Paragraff 6 o'r papur eglurhaol – Mewn perthynas â'r ffaith mai gan y Cyngor Sir neu'r Cyngor Bwrdeistref Sirol y mae'r penderfyniad terfynol o ran penodi aelodau o'r cyngor cymuned i'r pwyllgor safonau, a yw hyn yn gyfyngedig i'r penodiad ei hun neu a oes gan y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol y pŵer i benderfynu a ddylai aelod o'r cyngor cymuned gael ei benodi i'r pwyllgor?**

**Ymateb**
Cadarnhaodd swyddogion bod gofyn i bob Pwyllgor Safonau gael cynrychiolydd o'r cynghorau cymuned yn ardal yr Awdurdod Unedol fel aelod.

**ii. Mae'r Rheoliadau'n nodi y dylid cael lleiafswm o 3 pherson ar is-bwyllgor, gyda chworwm o 2 - gallai nifer cyfartal o aelodau arwain at bleidlais gyfartal – a ellid goresgyn hyn trwy gynnal pleidlais fwrw? A fyddai'n well pe byddai'r cworwm yn odrif?**

**Ymateb**
Cadarnhaodd swyddogion y bydd y ffigwr cworwm o 2 yn cynnwys y Cadeirydd. Pe bai pleidlais gyfartal, gan y Cadeirydd y byddai'r bleidlais fwrw.

**iii. Mewn perthynas ag aelod Annibynnol yn eistedd ar Bwyllgor Safonau, a allai'r person hwnnw barhau i fod yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor hwnnw pe bai yn cael ei ethol fel Aelod o'r Awdurdod Unedol?**

**Ymateb**
Roedd Rheoliadau 2001 yn gwahardd aelod Annibynnol rhag parhau i fod yn aelod o Bwyllgor Safonau pe bai wedyn yn cael ei ethol yn aelod o'r awdurdod unedol. Bydd canllawiau yn cael eu darparu ar gyfer awdurdodau lleol.

Bu trafodaeth ar bwynt a godwyd gan Mike German:

**Y Cynghorau Cymuned hynny sydd o fewn ardal yr Awdurdod Unedol ddylai enwebu aelodau o'r Cyngor Cymuned ac nid yr Awdurdod Unedol.**

**Ymateb**
Er y gall Cyngor Cymuned enwebu ymgeiswyr ar gyfer eu penodi ar y Pwyllgorau Safonau, os oes mwy nac 1 enwebiad, gan yr Awdurdod Unedol y bydd y penderfyniad terfynol. Nid oes gofyn i'r Cynghorau Cymuned gytuno ar y penodiad terfynol. Gyda'r awdurdod unedol y mae'r penderfyniad terfynol i ddewis cynghorydd cymuned i fod yn aelod o Bwyllgor Safonau, gan mai pwyllgorau awdurdodau unedol oedd Pwyllgorau Safonau

Roedd y mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor yn hapus i'r Rheoliadau fynd rhagddynt, yn amodol ar y ffaith fod y materion a godwyd yn cael eu cynnwys yn y canllawiau atodol. Ni fynegodd un Aelod farn ynghylch penodiadau i'r Cynghorau Cymuned.

Ann Jones AM
Cadeirydd